O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif. 1426 (Cy. 170)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Man i'r De-orllewin o Frynsaithmarchog, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*7 Mehefin 2011*
Yn dod i rym	*20 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Mehefin 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Man i'r De-orllewin o Frynsaithmarchog, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 20 Mehefin 2011 ac a ddaw i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr y darn o'r gefnffordd ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o Gefnffordd yr A494 Dolgellau – Man i'r De o Benbedw, i'r de-orllewin o Frynsaithmarchog yn Sir Ddinbych, sy'n ymestyn o bwynt 250 metr i'r gorllewin o Frynsaithmarchog hyd at bwynt 110 metr i'r gogledd o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth at Fferm y Plasau.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar hyd y darn o'r gefnffordd

6.Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd ag y bydd yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y cyfeirir atynt yno yn weithredol.

8. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Mehefin 2011

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.